



***fflecsi* – profiad o drafnidiaeth seiliedig ar alw yng Nghymru**

Adroddiad interim
Chwefror 2022



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

transport**focus**
ffocws ar drafnidiaeth

Cefndir a chyflwyniad

Mae Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i asesu profiadau trafndiaeth seiliedig ar alw ar ôl cyflwyno sawl cynllun peilot dan frand *fflecsi* yng Nghymru yn 2020¹. Hefyd, edrychwyd ar ddau gynllun yn Lloegr fel cymhariaeth – *Tees Flex* yn Nyffryn Tees² a *Go2* yn ardal Sevenoaks.

Aethom ati i holi teithwyr a darpar deithwyr, a siarad â chwmnïau cludiant ac awdurdodau lleol (rhai'n cymryd rhan yng nghynllun peilot *fflecsi*, eraill ddim). Mae'r cynlluniau *fflecsi* sy'n rhan o'n hymchwil yn cwmpasu

ardaloedd Dinbych, Sir Benfro (heb gynnwys *Bwcabus* sydd wedi ymuno â theulu *fflecsi* ers hynny) a Dyffryn Conwy.

Lansiwyd ymgyrch *fflecsi* estynedig yn ninas Casnewydd yn 2021. Rydyn ni'n bwriadu adolygu hwn ar ôl iddo gael ei draed dano a phan fydd teithwyr yn gyfarwydd â phrofiad gwasanaeth bws hyblyg, yn gynnar yn 2022 fwy na thebyg.

Gan fod llywodraethau, awdurdodau lleol a chwmnïau'n dangos cryn ddiddordeb mewn trafndiaeth seiliedig ar alw, rydyn ni'n rhannu'r crynodeb interim hwn yn awr fel y gallant ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd hyd yma.

1 Mae rhagor o fanylion am *fflecsi* ar gael ar wefan y cynllun yn <https://www.ffecci.cymru/>; nodwch bod rhai cynlluniau'n cael eu galw'n IRT - trafndiaeth ymatebol integredig – sy'n ceisio integreiddio gwasanaethau bws hyblyg gyda gwasanaethau bysiau, trenau a choetsys presennol ar sail amserlen.

2 Ac eithrio Middlesbrough

Rhageiriau



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio trafndiaeth seiliedig ar alw a thrafnidiaeth ymatebol integredig (DRT/IRT) fel rhan o'r cymysgedd trafndiaeth gyhoeddus. Mae'n edrych ar sut y gall DRT/IRT ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau gwledig yn ogystal ag agor cyfleoedd a chysylltiadau newydd â gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd presennol ledled y wlad.

Gan weithio gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau a chyda'r cyflenwr platfform technoleg, mae'r dull hwn o ddarparu trafndiaeth gyhoeddus wedi golygu bod pawb fu'n ymwneud â'r prosiect wedi gorfod dysgu llawer yn gyflym iawn. Roedd rhedeg gwasanaethau yn ystod pandemig yn her, ond wrth i ni gynyddu ein dealltwriaeth o alluoedd y dechnoleg, gwranddo ar adborth gan deithwyr a dechrau cyfleu manteision y math newydd hwn o wasanaeth i ddarparu gwsmeriaid, dechreuom weld cynnydd yn nifer y bobl wnaeth

fanteisio ar yr holl wasanaethau peilot.

Roedd gwasanaethau *fflecsi* yn achubiaeth i lawer o deithwyr oedd angen gwneud siwrneiau hanfodol yn ystod y pandemig. Roedd y gwasanaethau'n dal i fod yn boblogaidd wrth inni ddechrau symud allan o'r pandemig, gyda'r defnydd yn dal i dyfu yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r cynlluniau peilot yn parhau ac yn dal i esblygu, ac rydym yn edrych ymlaen at gael casgliadau cynllun mwy diweddar Casnewydd i gwblhau ein hasesiad o *fflecsi* yn 2022.

Rydym wedi'n calonogi gan arsylwadau'r adroddiad interim hwn. Mae'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda er gwaethaf amgylchiadau anodd y pandemig, yr hyn na weithiodd cystal, a lle allwn ni wneud gwelliannau yn y dyfodol.

Lee Robinson

Cyfarwyddwr Datblygu'r Canolbarth,
y Gogledd a'r Gymru wledig

ffocws ar dtrafnidiaeth

Mae Ffocws ar Dtrafnidiaeth Cymru yn canolbwyntio ar gynrychioli buddiannau defnyddwyr trafndiaeth Cymru. Rydym yn falch o weithio gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC) wrth iddo lansio nifer o gynlluniau peilot o dan frand *fflecsi*. Mae ein hymchwil yn asesu profiad teithwyr o dtrafnidiaeth seiliedig ar alw (DRT). Gobeithio y bydd y gwersi o werth nid yn unig i TrC ond hefyd i weithredwyr ac awdurdodau eraill sy'n ystyried DRT fel rhan o'r cymysgedd trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer y dyfodol.

Mae DRT wedi bodoli ers blynnyddoedd, yn bennaf ar ffurf gwasanaethau 'Dial-a-Ride' wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer aelodau oedrannus ac anabl o'r gymuned. Yn fwy diweddar, mae

technoleg wedi galluogi datblygiad gwasanaethau hyblyg gydag apiau archebu ar-lein. Mae algorithmau cyfrifiadurol yn cyfrifo amserlenni a llwybrau gyrrwyr.

Yr her sy'n wynebu trafndiaeth gyhoeddus yw mynd i'r afael â rhwystrau allweddol costau, cyfleustra a chymhlethdod. Gall ehangu apêl gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus annog pobl i newid ymddygiad a chynnig mwy o opsiynau teithio i gymunedau. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut y gall gwasanaethau *fflecsi* chwarae rhan wrth ymateb i'r her hon, er budd pobl Cymru.

Y Cynghorydd William Powell

Aelod o'r Bwrdd dros Gymru

Canfyddiadau allweddol – defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr

Agweddau tuag at drafnidiaeth gyhoeddus

Roedd y rhai y buon ni'n siarad â nhw naill ai'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd neu'n agored i'r syniad o ddefnyddio gwasanaeth bws hyblyg o bosibl. Dywedodd rhai â char mai dyma'r ffordd 'amlwg' a'r dull o deithio a ffefrir oni bai bod gyrru a pharcio yn broblem. Bysiau yw'r dewis amgen amlycaf ar gyfer teithiau lleol (lle maen nhw ar gael) ac mae pobl yn defnyddio tacsis hefyd, er gwaetha'r gost, os nad yw'r bws neu lifft gan eraill yn opsiwn. Dim ond ar gyfer teithiau pellach o'r ardal gyfagos y caiff trenau a choetsis eu hystyried mewn gwirionedd.

Roedd pob un o blaid darpariaeth resymol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus er eu bod nhw'n cydnabod yr heriau o ran darparu gwasanaeth yn eu hardal leol yn aml. Roedd rhai defnyddwyr ceir yn gweld bod angen trafnidiaeth gyhoeddus ar eu cyfer nhw eu hunain ac eraill heb gar neu â phroblemau symudedd penodol. O'r herwydd, mae pobl yn croesawu *fflecsi* a gwasanaethau tebyg. Roedd rhai'n poeni y gallai'r gwasanaeth ddod i ben os nad oedd digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohono, yn enwedig ar ôl deall mai cynllun peilot yw *fflecsi* ar hyn o bryd.

"Mae fy mrawd i'n gorfod ei ddefnyddio i fynd i gyfweiliadau gwaith, a finnau nawr 'mod i wedi gorffen coleg - dyna'r unig ddewis sydd gynnon ni."

Menyw 18 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth, Sir Benfro

Ar ôl i bobl ddeall y cynnig *fflecsi*, roeddent yn ei ystyried yn arloesol ar y cyfan ac yn ateb modern i drafnidiaeth leol. Roedd rhai o'r bobl oedd wedi arfer â gwasanaeth ar sail amserlen, er braidd yn gyfyngedig, cyn cyflwyno *fflecsi*, wedi drysu braidd gyda'r newid. Roedd yn well ganddyn nhw symhwydd a dibynadwyedd canfyddedig gwasanaeth ag amserlen. Roedd eraill yn cydnabod bod *fflecsi* nid yn unig yn helpu i gynnal gwasanaeth bws lleol, ond bod ei hyblygrwydd yn darparu cynnig gwell o lawer hefyd.

"Dwi'n meddwl ei fod yn wych - gymaint gwell nag o'r blaen. Mae angen mwy o hysbysebu arno. Dwi'n ei argymhell i bawb - fy rheulu a'm ffrindiau i gyd!"

Menyw 41 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth, Dinbych

Mae profiadau pobl o wasanaeth *fflecsi*, a'u hagweddau ato, yn hynod o gyson ar draws y tair ardal dan sylw hyd yma (Dinbych, Sir Benfro, Dyffryn Conwy). Er nad ydyn nhw mor anghysbell â'r lleoliadau Cymreig, mae'r casgliadau'n weddol debyg yn y ddau gynllun trafnidiaeth seiliedig ar alw yn Lloegr (Tees Valley a Sevenoaks). Efallai y byddwn yn gweld gwahaniaethau pan fyddwn yn gallu cwblhau'r prosiect a chynnwys canlyniadau Casnewydd.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Lle mae gwasanaeth bws hyblyg wedi disodli gwasanaeth ag amserlen, mae'n ymddangos bod gyrrwyr bysiau wedi chwarae rhan allweddol wrth hysbysu teithwyr rheolaidd blaenorol ac egluro sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hyblyg. Cofiwch mai ychydig o gyhoeddusrwydd a fu ar gyfer y gwasanaethau newydd gan fod pobl yn cael eu cynghori i wneud teithiau hanfodol yn unig.

Mae llawer o ddarpar ddefnyddwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau bws hyblyg yn eu hardal drwy weld y bysiau'n gyrru o gwmpas. Wedi dweud hynny, efallai na fyddant yn gwybod llawer am y gwasanaeth na sut mae'n gweithredu. Efallai bod ganddyn nhw rywfaint o amheuan o ran a allan nhw ddefnyddio'r gwasanaeth neu ai dim ond ar gyfer yr henoed neu'r anabl mae e – hwyrach oherwydd gwybodaeth flaenorol am wasanaethau Dial-a-Ride ar gyfer teithwyr o'r fath.

"A dweud y gwir, y tafarnwr
ddygwedodd y byddai'n beth da i mi
ar ôl i'r gyrrwr bws adael taflenni
am y gwasanaeth yn y dafarn,
achos roeddwn i wedi cael llond bol
ar Bwcabus...es ati i ddefnyddio'r
gwasanaeth o fewn diwrnod neu ddau
[ar ôl hynny]."

Dyn 61 oed â phroblemau symudedd, Sir Benfro

"Ro'n i wedi gweld fflecsi ond doeddwn
i ddim yn rhy siŵr os oedd e ar gyfer
pobl anabl neu'r henoed."

Pâr cymysg, darpar ddefnyddwyr, 26 a 45 oed, Sir Benfro

Mae 'hyblygrwydd' yn apelio, ond mae pobl yn ansicr yn
aml ynghylch beth yn union mae'n ei olygu. Weithiau,
dydyn nhw ddim yn credu ei fod yn gallu bod 'mor' hyblyg
â hynny a bod y cynnig yn swnio'n rhy dda i fod yn wir
– 'gwasanaeth tacsî am bris bws'. Yn yr ardaloedd mwy
gwledig, roedd teimlad nad dyma'r math o beth y bydden
nhw'n disgwyl ei gael yn eu hardal nhw.

"Dwi'n tueddu i ddefnyddio fflecsi bron
fel gwasanaeth tacsî personol... i'r
dref ac yn ôl."

Dyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth, 32 oed, Dinbych

"Wy'n ffili credu'r peth; smo ni'n cal
trafnidiaeth fel hyn yn Sir Benfro."

Pâr cymysg, darpar ddefnyddwyr, 39 a 41 oed, Sir Benfro

Ar gyfer teithiau penodol, mae fflecsi yn gallu bod yn haws
na cheisio gwneud y daith ar sawl bws rheolaidd. Mae
pobl yn gwerthfawrogi gallu fflecsi i gysylltu â llwybrau
bysiau hirbell i'r prif drefi neu'r arfordir. Hefyd, maen nhw'n
gwerthfawrogi'r syniad o integreiddio â threnau, er mai dim
ond cyfran fach o'r holl deithiau yw teithiau o'r fath.

"Weithiau dwi'n mynd i Fetws-y-coed
ar y fflecsi, ac wedyn ar y trên i
Landudno. Mae bws fflecsi yn stopio
reit wrth yr orsaf ym Metws-y-coed,
felly mae'n gweithio'n dda."

Dyn 80 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth, Dyffryn Conwy

Gall fod yn anodd i bobl ddeall sut mae'r ap yn gweithio
a sut mae'r algorithm yn cynllunio'r daith. Maen nhw'n
credu bod 'rhaid bod yna amserlen', yn poeni y byddai
'pawb eisiau teithio ar yr un pryd', faint o amser oedd
angen ei neilltuo i sicrhau eu bod yn cyrraedd apwyntiad
neu gysylltiad mewn pryd, ac am fws yn gorfod troi'n ôl
os bydd rhywun yn archebu taith ar y funud olaf pan fydd
teithwyr eraill eisoes ar y bws.

"Yr unig beth sydd wedi digwydd cwpl
o weithiau yw eu bod nhw wedi troi'n
ôl ar ganol y daith a mynd yn ôl i lle'n
union wnaethon nhw'nghodi i, gan wneud
fy siwrne'n dipyn hirach... roeddwn i
braidd yn flin a dweud y gwir."

Menyw 52 oed â phroblemau symudedd sy'n defnyddio'r
gwasanaeth, Tees Valley

"Pan edrychais i ar y wefan, y prif bryder i mi oedd dibynadwyedd - byddai'n iawn i mi fynd i Sevenoaks ar y penwythnos gan fod parcio mor anobeithiol yno, mae gen i amser ar fy nwylo, ond byddwn yn cwestiynu pa mor ddibynadwy yw'r gwasanaeth os oeddwn i eisiau cyrraedd yr orsaf ar gyfer trên penodol. Roeddwn i'n methu casglu pa mor aml maen nhw'n rhedeg. Oes yna unrhyw fath o amserlen? Doeddwn i ddim yn deall pa mor aml maen nhw'n rhedeg? Ydyn nhw'n teithio mewn cylch ac yn aros i rywun archebu? Oes un yn eich ardal chi bob awr neu rywbeth?"

Dyn 35 oed, darpar ddefnyddiwr, Sevenoaks

I rai, roedd manteision hyblygrwydd ar draul symlrwydd ac arfer. Roedd rhai a allai fod wedi cael bws am 10.04 ar ddydd Mawrth yn unig o'r blaen yn teimlo ei bod hi'n drafferthus gorfod archebu ymlaen llaw. Efallai y bydd ganddynt bryderon a fyddai'r bws yn troi lan hefyd, ei brydlondeb, a pha lwybr y byddai'n ei ddilyn a pha mor hir fydd y daith, lle'r oedd gwasanaeth 10.04 yn cynnig sicrwydd – er mai dim ond unwaith yr wythnos.

"Yr unig beth efo'r fflecsi yw bod rhaid archebu ac mae'n niwsans, a gyda gwasanaeth Llew Jones i Ddinbych, mae'n cyrraedd bob dydd Gwener am 10.15am, a dyna ni!"

Menyw 88 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth, Dyffryn Conwy

"Yr argraff gyntaf - wel doeddwn i ddim yn hapus iawn gydag e, yn amlwg mae'n newydd ac mae pawb yn hoffi pethau newydd... [Ond] doeddwn i ddim yn credu ei fod yn dda iawn, dweud y gwir. Rydych chi'n gorfod cynllunio'ch taith. Dwi'n gwybod bod rhaid i chi gynllunio taith fws arferol, ond roeddech chi'n gwybod pryd roedd yn cyrraedd bryd hynny."

Menyw sy'n defnyddio'r gwasanaeth, 69 oed, Dinbych

Defnyddio'r ap i archebu taith

Cymysg yw'r ymateb o ran archebu teithiau drwy **ap**. Dyw'r rhai sy'n hen gyfarwydd â ffonau clyfar ddim yn poeni fawr ddim, ac yn ei ystyried yn fodern a chyfleus. Maen nhw'n croesawu elfennau ymarferol yr ap o ran y map rhyngweithiol, cadarnhau archebion, rhybuddion wrth i'r bws agosáu, ac yn y blaen ac, yn disgwyl hynny yn yr oes sydd ohoni.

"Mae'r ap yn eithaf hawdd i'w ddefnyddio, synnwyr cyffredin, ddim yn anodd, ond dwi ddim yn siŵr iawn sut mae'n gweithio - oes 'na lwybr? Oes mwy nag un bws? Oes sawl bws o gwmpas y lle? Os bydd 20 o bobl yn ei archebu ar yr un pryd sut maen nhw'n llwyddo i gadw at yr amserlen? A oes amserlen? Dwi eisiau bod yn rhywle erbyn amser penodol, felly ydyn nhw'n gallu gwneud hynny?"

Dyn 59 oed, darpar ddefnyddiwr, Dinbych

"Roedd y trefniadau'n anodd i'w deall... Sut ar y ddaear fydddech chi'n archebu gydag ap? Dwi'n meddwl y byddwn i'n cael trafferth deall yr holl lwybrau newydd - doedd o ddim yn gwneud llawer o synnwyr i mi."

Menyw 71 oed, darpar ddefnyddiwr, Dinbych

"Fe allen nhw roi rhywbeth ar YouTube yn dangos rhywun yn ei archebu drwy'r ap, a'r camau sydd angen eu dilyn. Mae fideo'n llawer gwell ar gyfer y math yma o beth."

Dyn 65 oed, darpar ddefnyddiwr, Sir Benfro

Mae rhai sydd wedi'u gorfodi i ddysgu sut i ddefnyddio'r ap ar eu ffôn (yn aml gyda chymorth teulu, ffrindiau neu yrwyr hyd yn oed) wedi synnu pa mor dda mae'n gweithio ar ôl dod i arfer ag e. Efallai y byddai'n well gan eraill, gan gynnwys rhai heb ffôn, archebu drwy'r wefan neu'r ganolfan alwadau. Mae'r **ganolfan alwadau** yn uchel ei pharch ac yn cael ei hystyried yn rhan hanfodol o'r cynnig gan lawer – ar gyfer archebu teithiau a datrys unrhyw broblemau gyda'r gwasanaeth neu archeb.

"Hoffwn archebu dros y ffôn achos mae'n braf clywed cadarnhad gan lais rhywun arall. Dwi'n poeni bob amser 'mod i wedi camddeall rhywbeth neu wedi gwneud camgymeriad. Os bydd rhywun yn rhoi eu gair, sicrwydd i chi, a bod rhywbeth yn mynd o'i le, yna eu bai nhw ydi hynny wedyn."

Pâr o ddynion 21 a 22 oed, darpar ddefnyddwyr, Dyffryn Conwy

Mae rhai teithwyr yn poeni am **signal ffonau symudol** yn eu hardal – boed yn real neu'n dybiedig. Maen nhw'n poeni na allan nhw wneud yr archeb gychwynnol, eu bod yn methu derbyn diweddariadau na rhybuddion ac yn cael trafferth archebu eu siwrnai adref o'r gyrchfan. Mewn un lleoliad, roedd teithwyr wedi cael problemau wrth geisio archebu taith yn ôl cyn y daith allan; mae'r broblem hon wedi'i chywiro ers hynny.

Yn rhannol oherwydd hyn (er i ni glywed yr un awgrym mewn ardaloedd eraill hefyd) awgrymodd teithwyr y dylid cael ffonau yn arosfannau bysiau canol y dref i'w helpu i archebu bws yn ôl pan fyddan nhw'n barod. Rydyn ni'n deall bod TrC yn sefydlu cyfleuster fel y gall sefydliadau meddygol ac addysgol, archfarchnadoedd ac ati ddefnyddio'r system i archebu teithiau'n ôl adref i gwsmeriaid.

"Does 'na ddim signal 4G mewn rhai ardaloedd yma – dwi'n amau eu bod nhw'n dal i ddefnyddio canhwyllau mewn rhai llefydd!"

Pâr o ddynion 21 a 22 oed, darpar ddefnyddwyr, Dyffryn Conwy

"Mae batri'r ffôn yn darfod yn rheolaidd, does gen i ddim cysylltiad. Does gen i ddim data arno... Unrhyw syniadau? Oes modd iddyn nhw gael ffôn yn y safle bysiau?"

Menyw 41 oed, darpar ddefnyddiwr, Sevenoaks

Er nad yw'r opsiwn i osod amser '**cyrraedd erbyn**' ar gael ym mhob ardal, dyw llawer o ddarpar deithwyr ddim yn ymwybodol ohono lle mae ar gael. Hefyd, mae rhai sydd wedi defnyddio'r ap yn ei chael hi'n anodd ei gael i weithio, tra bod eraill yn ansicr sut mae'n gweithio ac a allant ddibynnu arno. Mae'n ymddangos bod hyn yn bryder arbennig i gymudwyr rheolaidd sy'n ceisio gwneud cysylltiad â gwasanaeth sy'n mynd ymlaen i rywle arall, ac yn amharod i fentro archebu ambell daith i roi cynnig ar y gwasanaeth.

Gofynnwyd i bobl fynd ar **wefan** eu gwasanaeth bws hyblyg lleol a rhoi adborth. Dywedodd y rhan fwyaf bod y gwefannau'n ddefnyddiol ac yn rhoi esboniad da o'r gwasanaeth er bod rhai'n awgrymu'r angen am ganllawiau ar sut i archebu a defnyddio'r gwasanaeth.

"Fe allen nhw gael sylwadau gan ddefnyddwyr rheolaidd, beth maen nhw'n ei feddwl, a'u profiadau ac ati. Dwi wastad yn edrych ar adolygiadau."

Menyw 18 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth, Sir Benfro

Defnyddio'r gwasanaeth

Mae'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr yn **fodlon â'r gwasanaeth** sy'n cael ei ddarparu, er bod rhai'n dal i hiraethu am wasanaeth ag amserlen. Yn gyffredinol, maen nhw'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd ac agosrwydd y manau codi teithwyr, er bod rhywfaint o broblemau yn y dyddiau cynnar gyda chyhuddiadau nad yw'r rhai sy'n trefnu'r system ddim yn deall y ddaearyddiaeth leol a bod angen nodi manau casglu agosach a saffach. Mewn rhai achosion, mae'n amlwg bod gyrwyr wedi dewis anwybyddu'r system ar sail eu gwybodaeth leol.

Yn ystod y pandemig, ni chafodd teithwyr unrhyw broblemau o ran cael sedd ar fws ar ôl archebu lle. Fodd bynnag, wrth i'r traffig gynyddu wedi'r pandemig, maen nhw'n poeni y gall fod yn anoddach cael sedd neu archebu lle pan fydd mwy o ddefnyddwyr wedi'r pandemig.

"Yr unig beth, os ydi pethau'n prysuro, a fydd y gwasanaeth yn llai hyblyg?"

Pâr o ddynion 21 a 22 oed, darpar ddefnyddwyr, Dyffryn Conwy

Mae **ansawdd y bysiau** yn dderbyniol ar y cyfan a'r cerbydau llai o faint yn fwy addas ar gyfer y ffyrdd lleol ym marn llawer, ac yn cael eu hystyried yn fwy 'cyfeillgar'. Roedd y rhai oedd angen mynediad i gadair olwyn yn croesawu'r ffaith fod hyn ar gael, er bod y gofyniad am asesiad cychwynnol wedi achosi rhywfaint o bryder. Fel y gwelsom o'r blaen, mae **agwedd y gyrrwr** yn allweddol i sicrhau profiad boddhaol (neu well), yn enwedig os mai'r un gyrrwr sydd wrth y llyw bob dydd.

"Mae'r cerbydau mewn cyflwr da iawn, gallwch weld eu bod nhw'n cael eu glanhau bob dydd, maen nhw'n lân ac yn dactylus iawn... Mae'r gyrwyr wedi gwisgo'n smart hefyd, mewn iwnniform, ac maen nhw'n gyfeillgar iawn."

Dyn 30 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth, Sevenoaks

"Mae menywod yn teimlo'n ddiogel ar fysiau, mae pobl yn gallu bod reit fygythiol, ond os yw'n gerbyd llai gyda gwregysau diogelwch yna mae pobl yn mynd i deimlo'n saffach."

Pâr o ddynion 21 a 22 oed, darpar ddefnyddwyr, Dyffryn Conwy

Roedd y darpar ddefnyddwyr y buom yn siarad â nhw i gyd wedi'u dewis oherwydd y ffaith y gallai'r gwasanaeth hyblyg fod o fudd iddyn nhw ar gyfer rhai teithiau. Cyfeiriodd sawl un at osgoi'r angen i yrru a 'thrafferth' a chost parcio fel ffactorau apelgar dros ddefnyddio'r bws, ynghyd â'r gallu i yfed alcohol yn gyfrifol. Dywedodd rhai eu bod yn aros am y 'cyfle cywir' i roi cynnig arno – byddai hynny ar gyfer taith hamdden nad yw'n hanfodol fwy na thebyg, gan fod y risgiau canfyddedig o golli apwyntiad neu gysylltiad pellach yn ormod o fwgan i rai sydd ddim yn gyfarwydd â'r gwasanaeth. Aeth sawl defnyddiwr posibl mor bell ag awgrymu talebau teithio am ddim neu gymhellion eraill er mwyn denu pobl i brofi'r gwasanaeth.

Mae agweddau at **amseroedd ac amllder y gwasanaeth** yn amrywio o ardal i ardal ac yn ôl diben y daith dan sylw. Byddai rhai yn hoffi (neu hyd yn oed angen) gwasanaeth cynharach er mwyn cyrraedd y gwaith mewn pryd – yn enwedig mewn ardaloedd lle credir mai dim ond ar ôl i'r bws a/neu'r gyrrwr gludo plant ysgol y mae'r gwasanaeth ar gael. Gallai gwasanaethau diweddarach helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl gwaith neu gymdeithasu fin nos. Gallai gwasanaethau ar y Sul fod o fudd i siopwyr ac addolwyr – a chynnig cyfle i rai sydd braidd yn ansicr i bwysu a mesur y gwasanaeth ar siwrnai nad yw'n hanfodol.



"O safbwynt hunanol, efallai dechrau'n gynharach a gorffen yn hwyrach fel y gallaf ei ddefnyddio ar gyfer gwaith."

Dyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth, 32 oed, Dinbych

"Y ffaith nad yw'n rhedeg ar ddydd Sul. Mae gynnwch chi bobl sydd am fynd i'r capel neu'r eglwys, yn enwedig y to hŷn. Byddai'n braf cael opsiwn am ychydig oriau ar ddydd Sul."

Pâr o ddynion 21 a 22 oed, darpar ddefnyddwyr, Dyffryn Conwy

"Efallai'ch bod chi'n mynd i'r dref, ac yna pan rydych chi eisiau mynd adref, mae'r gyrrwr yn gorfod cymryd ei awr ginio, a bod hynny rhwng hanner dydd a 12.30pm, a dw i'n meddwl bod cryn alw am fysiau bryd hynny... Mae'n anobeithiol ceisio cael bws yn ôl wedyn."

Menyw sy'n defnyddio'r gwasanaeth, 69 oed, Dinbych

Mae'n anochel bod rhwystredigaeth mewn ardaloedd lle'r oedd gwasanaeth ar gael mewn 'parth' ar rai diwrnodau o'r wythnos yn unig. Hefyd, clywsom ychydig o gwynion am y ffaith fod cyrchfan ychydig y tu allan i'r parth gweithredu ac felly na ellid darparu gwasanaeth. Efallai bod problemau gyda rhai teithiau ar draws parthau yn Sir Benfro wedi'u datrys bellach gan fod gwasanaeth lleol Bwcabus wedi ymuno â'r teulu fflacsi.

"Nid yw'r ffaith fod teithiau'n amrywio a ddim yn mynd i'r un llefydd bob dydd yn ddefnyddiol iawn - efallai na fyddai'n addas ar gyfer y gwaith oherwydd oriau gweithredu a manau gollwg cyfyngedig."

Menyw 29, darpar ddefnyddiwr, Sir Benfro

"Trueni ei fod mor haearnidd, ac nad yw gyrrwyr yn cael ailgyfeirio'r daith. Mae'n eithaf llym ac alla i weld pam, ond mae mor rhwystredig bod ffiniau wedi'u gosod mor bendant... Maen nhw wastad yn dwend 'na sori, dyw fanno ddim yn y parth".

Dyn 57 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth, Dyffryn Tees

Er nad oeddem yn bwriadu siarad ag unrhyw **dwristiaid** fel rhan o'r ymchwil, mae gwir gred y gallai gwasanaethau hyblyg fod o fudd iddyn nhw a'r economi leol yn y pen draw – er bod hyn wedi'i gplysu â'r pryder na fydd digon o seddi i drigolion lleol pan mae'r tymor gwyliau ar ei anterth. Fe wnaeth un person y buon ni'n siarad ag e yn Sevenoaks fynegi diddordeb mewn defnyddio gwasanaeth fflacsi y tro nesaf y byddai ar wyliau'n Sir Benfro – ac fel cerddwr, yn hoffi'r syniad o gerdded un ffordd a dal y bws i ddychwelyd (neu i'r gwrthwyneb).

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod **cost** teithiau hyblyg yn dderbyniol. Mae'n ffafriol iawn o gymharu â thacsi (yr unig ddewis arall i rai heb gar). Mae rhywfaint o ddiddordeb mewn tocynnau cyfunol ymhlith y rhai sy'n cysylltu â gwasanaethau pellach, a bod bysiau'n derbyn cardiau digyswllt. Ychydig o ddefnyddwyr sy'n poeni'n arbennig am gael tocyn papur oni bai eu bod yn bwriadu hawlio treuliau.

Mathau o ddefnyddwyr

Gwelodd ein hymchwil fod chwe grŵp allweddol o ddefnyddwyr a darpar ddefnyddwyr fel y nodir isod:

Clwstwr	Gweithwyr a myfyrwyr	Wedi ymddeol	Pobl heb gar	Di-waith	Nam symudedd	Ymwelwyr
Pwy ydyn nhw	- Teithwyr rheolaidd - Arddegau hwyr – oedran gweithio - Yn gyffredinol, grwpiau economaidd-gymdeithasol is ac eithrio myfyrwyr (mwy cymysg) a rhai grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn Sevenoaks (cymudwyr Llundain).	- Dynion a menywod - Grwpiau economaidd-gymdeithasol cymysg.	- Grwpiau economaidd-gymdeithasol is - Oedran gweithio ond efallai nad ydynt mewn gwaith, neu'n gweithio'n rhan-amser a chyda chyfrifoldebau gofal plant.	Unrhyw rai, yn enwedig rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.	Unrhyw rai – oedrannau a chyflyrau amrywiol.	Unrhyw rai.
Pam maen nhw'n teithio	- I gyrraedd y gwaith neu'r brifysgol - Bydd myfyrwyr yn defnyddio'r gwasanaeth at ddibenion hamdden hefyd. Mae gan gymudwyr yn y sampl hwn ddewisiadau eraill ar benwythnosau.	- At ddibenion hamdden - Teithiau siopa cyfagos a mynd i'r feddygfa - Ymweld â theulu/ffrindiau - Efallai eu bod nhw wedi gorfod rhoi'r gorau i yrru car, felly dyma'r unig ddewis sydd ar gael.	- Teithiau siopa - Hamdden - Ymweliadau â theulu a ffrindiau.	- Hamdden - Teithio i'r ganolfan waith a chyfweliadau - Teithiau siopa.	- Rhyddid/annibyniaeth - Cymudo - Mynychu apwyntiadau - Siopa - Efallai nad ydyn nhw'n gallu gyrru eu hunain - Yn gallu teithio gyda gofalwr.	- Dibenion hamdden - Ddim yn adnabod yr ardal - Efallai nad ydynt wedi dod â'u car eu hunain - Eisiau ymlacio (dim straen o yrru) - Taith un ffordd – cerdded yno neu'n ôl.

Sbardunau a rhwystrau

Ledled yr ardaloedd dan sylw, fe wnaethom sylwi ar set gyson o sbardunau a rhwystrau (fel y nodir isod). Mae rhai mân wahaniaethau sy'n golygu bod yr hyn a allai annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth yn amrywio ychydig o grŵp i grŵp:

Mae problemau parcio a thagfeydd yn fwy o sbardun i weithwyr/myfyrwyr, twristiaid a theithiau

hamdden, tra mai cyfleoedd teithio rhatach sydd fwyaf perthnasol i bobl sydd wedi ymddeol neu sydd â phroblem symudedd wrth reswm. O ran rhwystrau, un gwahaniaeth amlwg ar draws y grwpiau yw bod dibynadwyedd yn hollbwysig i weithwyr/myfyrwyr a rhai â phroblemau symudedd.

Sbardunau		Rhwystrau	
Ymarferol	Ymwybyddiaeth	Diffyg ymwybyddiaeth	Ymwybyddiaeth a deallwriaeth
	Argaeledd	Ddim yn deall y cynnig	
	Anghen		
Ariannol	Cost	Dim signal ffôn symudol neu ffôn clyfar	Ymarferol
	Teithio rhatach	Angen cynllunio ymlaen llaw	
		Mynediad at gar	
Risgiau	Yr amgylchedd	Pa mor ddibynadwy o ran cyrraedd erbyn amser arbennig	Ymddiriedaeth
	Tagfeydd a pharcio – llai o ddefnydd o geir		



Annog rhagor i fanteisio ar wasanaethau bysiau hyblyg

Mae ein hymchwil ymhlith defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau bws hyblyg yn awgrymu nifer o gamau i'w cymryd er mwyn annog rhagor i ddefnyddio gwasanaethau bws hyblyg:

- unwaith y bydd cyfyngiadau Covid yn caniatáu, hyrwyddo'r gwasanaethau'n ehangach (gan gynnwys opsiynau teithiau a phwy all eu defnyddio)
- rhoi esboniadau gwell am sut mae'r gwasanaethau a'r broses archebu'n gweithio
- cysoni oriau'r gwasanaeth ag anghenion defnyddwyr, yn enwedig ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ac addysg
- rhoi sicrwydd ynghylch dibynadwyedd teithiau (o bosibl, drwy gyhoeddi ystadegau perfformiad) a gwybodaeth well am sut i archebu taith sy'n sicrhau bod rhywun yn cyrraedd erbyn amser penodol
- adolygu gwefannau i sicrhau eu bod yn ateb cwestiynau darpar ddefnyddwyr; ystyried creu canllawiau 'sut i' (fideos efallai) archebu a defnyddio'r gwasanaeth yn ogystal â map rhyngweithiol o'r ardal a wasanaethir
- cysylltu â grwpiau cymorth lleol i hyrwyddo'r gwasanaeth a hwyluso asesiadau cadair olwyn o bosibl

- dechrau ymgyrch hyrwyddo briodol drwy ganolfannau croeso, atyniadau lleol ac ardaloedd o harddwch naturiol, gan gynnwys taflenni a phosteri gyda manylion am sut i archebu taith
- mynd i'r afael â phryderon am ba mor ddibynadwy yw'r signal ffôn symudol a gweithio gyda sefydliadau meddygol, addysgol, hamdden a manwerthu er mwyn helpu pobl i archebu teithiau dychwelyd
- hyrwyddo elfennau gwyrdd trafnidiaeth gyhoeddus i berchnogion ceir, a'r manteision o osgoi 'trafferthion' a chostau parcio
- ystyried talebau ar gyfer taith am ddim a chymhellion eraill i annog pobl i roi cynnig arni, yn ogystal ag annog adborth ac adolygiadau gan ddefnyddwyr.

Byddwn yn adolygu'r canfyddiadau hyn unwaith y byddwn wedi cwblhau'r rhaglen ymchwil, gan gynnwys casgliadau cynllun *fflecsi* Casnewydd a lansiwyd yn ddiweddar. Mae'n debygol y bydd gwasanaeth mewn ardal fetropolitanaidd fel Casnewydd yn rhoi canfyddiadau go wahanol i'r gwasanaeth mwy gwledig yn ein hymchwil hyd yma.

Canfyddiadau allweddol – cwmnïau ac awdurdodau lleol

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chwmnïau cludiant a/ neu awdurdodau lleol yn yr un pum ardal â'r cyfweiliadau defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr (Dinbych, Sir Benfro, Dyffryn Conwy, a Tees Valley a Sevenoaks yn Lloegr).

Hefyd, gwnaethom hyn mewn dwy ardal a oedd wedi dewis peidio â chymryd rhan yng nghynllun peilot *fflecsi*, sef Gwynedd ac Abertawe.

Agweddau tuag at drafnidiaeth seiliedig ar alw (DRT)

Mae gan gwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol ddiddordeb brwd mewn trafnidiaeth seiliedig ar alw a sut mae cynllun peilot *fflecsi* yn gweithio'n ymarferol. Roedd y diddordeb hwn eisoes yn amlwg cyn pandemig y Coronafeirws gan eu bod yn wynebu gostyngiad yn nifer y teithwyr a phroblemau yn ymwneud â hyfywedd gwasanaethau ar sail amserlen. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynnydd a wnaed o ran gwerthuso'r syniad. Tyfodd y diddordeb wrth i'r pandemig ennill tir, ac wrth i nifer y teithwyr a oedd eisoes yn isel ddirywio ymhellach oherwydd cyngor i 'aros gartref' gan lywodraethau.

Mae cynllun peilot Trafnidiaeth Cymru wedi rhoi cyfle i nifer o ddarparwyr gwasanaethau yng Nghymru sefydlu cynllun *fflecsi*. Mae hyn wedi caniatáu iddyn nhw gynnal gwasanaeth bysiau yn ystod y pandemig a'r cyfyngiadau clo cysylltiedig ac, o bosibl, lleihau'r gost o sybsideiddio gwasanaethau presennol ar sail amserlen. Mae trafnidiaeth seiliedig ar alw yn cael ei ystyried yn ffordd o ehangu mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus hefyd, yn enwedig yng nghefn gwlad, a chyfrannu at ddyheadau amgylcheddol drwy ddisodli rhai teithiau a fyddai wedi'u gwneud mewn car preifat.

"Rwy'n credu ein bod ni'n cael cefnogaeth dda a digonol gan TrC - maen nhw'n frwdfrydig, maen nhw am i'r gwasanaethau llwyddo, rydyn ni a'r cwmnïau bysiau eisiau llwyddo. Mae llawer o arian ar gyfer marchnata pan allwn ni, a hoffem ddefnyddio hynny os gallwn wneud hynny, gan fod mwy o siawns i'r gwasanaeth llwyddo os caiff ei farchnata'n well. Hoffwn gael mwy o sicrwydd o ran dyfodol cynlluniau fflecsi."

Awdurdod Lleol, Cymru

Ar y cyfan, mae cwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol yn cefnogi gwaith TrC i sefydlu'r cysyniad fflecsi a hwyluso cymorth 'swyddfa gefn' o ran darparu mynediad i feddalwedd ViaVan a'r ganolfan alwadau ganolog. Yn gyffredinol, mae darparwyr Cymru yn dweud na fyddent wedi gallu ystyried darpariaeth bysiau hyblyg heb gymorth TrC.

"Ar hyn o bryd mae TrC yn ariannu'r ap a'r ganolfan alwadau ac rydyn ni'n teimlo ei bod yn well gwneud hynny'n genedlaethol. Pe baem yn cael ein gorfodi i ariannu'r elfennau hynny, yna rwy'n ofni y byddai'r holl fuddion yn cael eu colli."

Awdurdod Lleol, Cymru

Nid bod hynny'n golygu nad ydyn nhw'n feirniadol o rai agweddau ar y ffordd mae'r gwasanaethau wedi'u cyflwyno. Er eu bod nhw'n cydnabod bod llawer o wasanaethau wedi'u cyflwyno ar frys mewn ymateb i effaith y pandemig, mae rhai'n teimlo bod hyn yn rhy frysog ac y gallent fod wedi gwneud hynny'n well pe

bai mwy o amser ar gael. Yn benodol, roedd pennu lleoliadau casglu addas yn broblematic weithiau, a doedd gwybodaeth wael am yr ardal leol heb helpu'r sefyllfa chwaith. Hefyd, teimlwyd bod TrC wedi bod yn araf i gymeradwyo deunyddiau hyrwyddo ac nad oedd hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau newydd yn y dyddiau cynnar.

"Mae'n deg dweud ein bod ni wedi gwneud hyn ag elfen o frys. Er hynny, roedd yn broses gymharol hawdd diolch i TrC. Dim ond reit ar y dechrau y cafwyd unrhyw broblemau go iawn, a phan newidiwyd o un contractwr i'r llall - fe wnaethon ni ddatrys hynny cyn pen 24 awr."

Awdurdod Lleol, Cymru

Dywed darparwyr gwasanaethau eu bod wedi dysgu gwersi gwerthfawr ac y byddan nhw'n fwy parod i sefydlu cynlluniau tebyg mewn mannau eraill yn y dyfodol os oes angen.

"Aeth TrC ati i sefydlu'r arosfannau'n rhithwir. Gan eu bod nhw wedi gofyn inni am restr o bethau, roeddwn i'n cymryd bod popeth wedi'i wneud, ond nid felly oedd hi. Roedd TrC yn meddwl 'gallwn ni leihau'r baich ar eu sgwyddau nhw' ond fe gollon nhw'r wybodaeth leol. Dyw'r ffordd y cafodd arosfannau eu henwi ddim yn helpu defnyddwyr. Bydd yn nodi 'swyddfa'r post' ond nid enw'r pentref!"

Gweithredwr, Cymru

Heb os, mae darparwyr gwasanaethau'n cytuno na ellir ystyried trafnidiaeth seiliedig ar alw yn 'opsiwn rhad' ac na fydd yn arwain at arbed costau o reidrwydd. Mae'r adnoddau sydd eu hangen i hyrwyddo a chefnogi gwasanaeth bws hyblyg yn uwch nag ar gyfer gwasanaethau ag amserlen. Serch hynny, maen nhw'n teimlo bod trafnidiaeth seiliedig ar alw'n ymateb priodol i'r pandemig fel ffordd o gynnal gwasanaethau bysiau. Ar yr un pryd, roedd yn cynnig cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus ychwanegol i gymunedau ac yn cyfrannu at uchelgeisiau amgylcheddol.

"Mae'n anodd cynnal gwasanaeth bws llwybr penodol oherwydd byddai gennych ddau deithiwr y dydd, ond mae eu dileu yn her achos rydych chi dan bwysau gan gynghorwyr, y gymuned, oherwydd dydyn nhw ddim eisiau eu colli. Mae'n darparu gwasanaeth gwell o lawer o ran yr hyn a oedd gennym o'r blaen, o ran hygyrchedd. Yn fy marn i, rydyn ni wedi sôn llawer am gael pobl i roi'r gorau i'w car, ond dwi ddim yn credu y bydd yn arwain at hynny. Mae'n rhan o'r ateb ond nid yr ateb cyflawn."

Awdurdod Lleol, Cymru

Mae rhai darparwyr gwasanaethau'n poeni eu bod wedi colli rhai teithwyr blaenorol (er y gallai hyn fod yn ganlyniad i'r pandemig gymaint â'r newid i drefn fflecsi) ond yn honni ar yr un pryd bod y gwasanaeth hyblyg newydd wedi denu defnyddwyr newydd. Mae pawb yn disgwyl yn eiddgar am gynnydd yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus wrth i gyfyngiadau'r pandemig lacio a phryderon leihau.

"Credaf ein bod ni wedi sylwi dros y pump i chwe mis cyntaf, nad yr un bobl sy'n defnyddio'r bws heddiw â theithwyr y gorffennol. Maen nhw wedi bod yn ei ddefnyddio i fynd i'r gwaith. Mae'r rhai oedd yn defnyddio'r hen wasanaethau wedi bod yn cysgodi. Bydd hi'n ddiddorol gweld a wnânt ddychwelyd. Mae'n swnio fel y byddan nhw, ond mae'n newid go fawr iddyn nhw, ac a fyddan nhw'n gallu gwneud yr holl bethau newydd – ffonio, mynd ar-lein? Un o'r pethau allweddol fydd sut mae'r gwasanaeth yn cysylltu â thwristiaid, oherwydd yn ddamcaniaethol dylai fod yn beth da iawn iddyn nhw. Rwy'n edrych ymlaen at hynny, os ychydig yn bryderus!"

Awdurdod Lleol, Cymru

Serch hynny, mae rhai'n poeni os bydd fflecsi yn llwyddo i ddenu pobl yn ôl i drafnidiaeth gyhoeddus ac, yn benodol, wrth i'r farchnad dyfu, y gallai nifer y cerbydau a'r gyrwyr sydd eu hangen i ateb y galw am wasanaethau fflecsi fod yn aneconomaidd a byddai angen ystyried ailgyflwyno gwasanaethau ar sail amserlen er mwyn ateb y galw. Wedi dweud hynny, mae pawb yn credu y dylai trafnidiaeth seiliedig ar alw fod yn rhan o gymysgedd trafnidiaeth gyhoeddus y dyfodol.

Heriau wrth sefydlu gwasanaeth trafndiaeth seiliedig ar alw

Mae'r heriau a wynebwr gan gwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol yn perthyn i bedwar categori eang:

- ar gyfer teithwyr
 - integreiddio â gwasanaethau eraill
 - addysgu a rheoli teithwyr
- gweithredu
 - dewis a rheoli partneriaid
 - gweithredu'r dechnoleg.

Mae rhedeg gwasanaeth trafndiaeth seiliedig ar alw yn gymharol syml, ond gall integreiddio â gwasanaethau presennol ar sail amserlen (i ddarparu gwasanaeth integredig, neu drafndiaeth ymatebol integredig (IRT)) fod yn heriol ac mae'n rhoi mwy o alw ar y feddalwedd sy'n pweru'r system. Efallai bod gan gwmnïau eraill bryderon cychwynnol hefyd, bod gwasanaethau seiliedig ar alw'n bygwth dwyn teithwyr o'u gwasanaethau yn hytrach na chyfrannu atynt.

Er bod rhai wedi tybio efallai bod llwybrau gwasanaethau blaenorol ar sail amserlen yn diwallu anghenion teithwyr, efallai nad dyna'r achos bob amser, a'i bod hi'n bwysig deall i ble mae teithwyr am deithio yn ôl ac ymlaen, a phryd. Efallai mai cludo pobl i'r orsaf fysiau oedd y norm, ond hwyrach mai canolfan iechyd, archfarchnad ar gyrion y dref, canolfan waith, gorsaf drenau neu rywle arall yw diben eu taith yn y pen draw – rhywbeth y gallai gwasanaeth hyblyg ddarparu ar ei gyfer.

Yna, unwaith y bydd y gwasanaeth wedi'i gynllunio ac yn barod i'w lansio, rhaid hysbysu teithwyr am y newid a'u haddysgu sut i ddefnyddio'r gwasanaeth newydd gan gynnwys sut i archebu taith. Mae

darparwyr gwasanaethau'n cydnabod rôl allweddol gyrwyr wrth gyflwyno'r negeseuon hyn. Mae hyn yn berthnasol ar wasanaethau cyfredol sydd ar fin cael eu disodli, wrth redeg y gwasanaeth hyblyg newydd am y tro cyntaf, ac yn barhaus hefyd os ydyn nhw am gynyddu'r farchnad drwy annog defnyddwyr newydd gan gynnwys ymwelwyr.

Mae'r dasg o reoli partneriaid yn gallu bod yn her, wrth i awdurdodau ddewis a dethol cwmni bysiau ac o safbwynt y cymorth 'swyddfa gefn'. Mae'r ffaith fod TrC wedi cyflwyno darparwyr i *ViaVan* a sefydlu'r ganolfan alwadau wedi symleiddio'r broses olaf. Fodd bynnag, mae'r dechnoleg wedi golygu cryn waith dysgu'n aml – o ran deall beth mae'n gallu a ddim yn gallu ei wneud a sut i elwa i'r eithaf ami. Hefyd, rhaid cydnabod nad yw'r ap yn ateb perffaith i bopeth ac y bydd rhai defnyddwyr naill ai ddim yn gallu, neu ddim am ei ddefnyddio.

Mae awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau'n disgrifio tri maen prawf llwyddiant allweddol ar gyfer rhedeg gwasanaeth trafndiaeth seiliedig ar alw:

- **adnabod yr ardal** – cadw at ardal benodol a gwybod pryd a rhwng pa leoliadau mae pobl am deithio
- **cadw'r cynnig yn syml** – safoni diwrnodau ac amseroedd gweithredu cyhyd ag y bo'n ymarferol, cadw unrhyw system parth yn syml a sicrhau ei bod yn gwneud synnwyr i'r teithiwr, rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth a sylw arbennig i esboniadau am sut mae'n gweithio a sut i archebu taith
- **cydweithio fel partneriaeth** – mae angen i Trafndiaeth Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau gydnabod pwysigrwydd eu priodolau, meithrin a chynnal perthynas waith dda a defnyddio gwybodaeth leol gyrwyr fel bod y cyfan yn rhedeg yn ddidrafferth.



Casgliadau cychwynnol

Mae'r casgliadau hyn wedi'u seilio'n bennaf ar dair ardal yng Nghymru, rhai gwledig yn bennaf (Dinbych, Dyffryn Conwy a Sir Benfro), wedi'u hategu gan ddau gynllun yn Lloegr (Tees Valley a Sevenoaks). Byddwn yn eu hailystyried ar ôl cwblhau'r prosiect, oherwydd gallai canfyddiadau Casnewydd arwain at wneud rhai gwelliannau neu newidiadau (yn rhannol oherwydd ei bod yn ardal fwy metropolitaidd).

- Unwaith y bydd pobl yn deall y cysyniad hyblyg, bydd yn cael ei ystyried yn opsiwn atyniadol gan ddefnyddwyr bysiau blaenorol a gan rai a all ystyried ei ddefnyddio yn lle'r car.
- Mae hyrwyddo ac addysg yn hollbwysig os yw pobl (defnyddwyr bysiau presennol a darpar ddefnyddwyr newydd) i werthfawrogi'r cysyniad yn llawn, y system archebu teithiau a'r ffaith ei fod ar gyfer 'pawb' (nid dim ond pobl oedrannus neu anabl).
- Mae trafnidiaeth seiliedig ar alw yn addas iawn i'r cymunedau gwledig sy'n rhan o gynllun peilot *fflecsi*, lle mae economeg gwasanaethau bws ar sail amserlen yn ymylol ar y gorau.
- Mae proffil teithwyr a'u siwrneiau'n syndod o debyg ar draws tair ardal brawf Cymru - yn ogystal â'u hagweddau at gynllun *fflecsi*.
- Siopa, apwyntiadau (meddygol, cyfweiliadau swydd ac yn y blaen) a theithiau hamdden yw'r rhesymau mwyaf cyffredin. Efallai na fydd yr amseroedd gweithredu presennol mewn rhai ardaloedd yn cynnwys oriau cymudo arferol.
- Er bod y syniad o wasanaeth sy'n integreiddio â gwasanaethau bysiau a threnau presennol yn apelio at rai, mae cryn bryderon am ba mor ddibynadwy yw unrhyw gysylltiadau ac a oes modd ymddiried yn y gwasanaeth i gyflawni yn erbyn yr addewid penodol hwn.
- I lawer, mae defnyddio ap i archebu taith yn apelio ac yn arwydd o wasanaeth modern ac arloesol. Mae llawer o'r rhai a oedd braidd yn anghyfforddus wrth ddefnyddio'r dechnoleg i ddechrau wedi addasu iddi, tra mae'n well gan rai ddefnyddio'r ganolfan alwadau. Mae hyn yn rhan allweddol o'r cynnig ac yn rhoi sicrwydd i bobl os ydyn nhw'n cael unrhyw drafferth gyda'r system.
- Yn gyffredinol, mae pobl yn hoffi'r cerbydau a ddefnyddir (gan gynnwys rhai â nam symudedd), ond y gyrywyr yw wyneb y gwasanaeth. Maen nhw'n allweddol i brofiad teithwyr (gan gynnwys helpu gyda'r broses archebu).
- Mae cyflwyno gwasanaeth trafnidiaeth seiliedig ar alw yn llwyddiannus yn dibynnu ar berthynas waith dda rhwng y partneriaid (cwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol). Mae rôl Trafnidiaeth Cymru o ran helpu pobl i ddefnyddio meddalwedd *ViaVan* a'r swyddfa gefn, yn ogystal â'r ganolfan alwadau, wedi bod yn hanfodol wrth sefydlu'r gwasanaeth *fflecsi*.
- Fodd bynnag, os bydd cynlluniau trafnidiaeth seiliedig ar alw'n llwyddo i hybu nifer y teithwyr ar ôl y pandemig, efallai bydd y ddadl economaidd yn ffafrio gwasanaethau ar sail amserlen (yn enwedig os oes llawer o gymudo).
- Mae'r ymchwil yn dangos rôl werthfawr trafnidiaeth seiliedig ar alw fel rhan o'r cymysgedd trafnidiaeth cyffredinol.

Methodoleg

Ariennir yr ymchwil hon ar y cyd gan Trafnidiaeth Cymru (TrC) a Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru. Comisiynwyd Define Insight & Strategy i gynnal yr ymchwil.

Oherwydd pandemig Covid, cynhaliwyd cyfweiliadau o bell, drwy gyswllt fideo'n bennaf. Roedd hyn yn golygu bod y cyfweilydd yn gallu dangos deunyddiau ysgogi fel lluniau o wefannau amrywiol. Defnyddiwyd cyfweiliadau dros y ffôn ar gyfer yr ychydig rai oedd heb fynediad i'r we.

Anfonwyd neges e-bost at ddefnyddwyr gwasanaeth *fflecsi*³ yn Ninbych, Dyffryn Conwy a Sir Benfro, a gwasanaethau DRT yn Tees Valley⁴ a Sevenoaks⁵ yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil, a gofynnwyd nifer cyfyngedig o gwestiynau proffilio. Rydym yn ddiolchgar am gymorth canolfan alwadau TrC yn ogystal â chwmnïau bysiau ar draws yr ardaloedd wrth helpu i nodi a chael cytundeb teithwyr, sy'n archebu dros y ffôn a thrwy'r ap, i gydweithredu yn yr ymchwil.

Gwnaeth y tîm gwaith maes drefnu apwyntiadau gyda chyfranwyr parod (a gofyn am atgyfeiriadau at ddefnyddwyr/darpar ddefnyddwyr eraill yr oedd yr unigolion hyn yn eu hadnabod). Buon nhw'n chwilio am ddefnyddwyr a darpar ddefnyddwyr eraill yn yr ardaloedd gwahanol. Dechreuodd y cyfweiliadau ym mis Mawrth 2021, ond gan nad oedd fawr neb yn teithio ar y pryd, roedd y gwaith yn

araf iawn i ddechrau. Wrth i gyfyngiadau Covid gael eu llacio, cynyddodd ymdrechion Define yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf. Rydym wedi cwblhau 48 o gyfweiliadau defnyddwyr/darpar ddefnyddwyr (cynhaliwyd pum cyfweiliad fel parau cyfeillgarwch). Tua 40 munud oedd hyd y cyfweiliadau ar gyfartaledd.

Hefyd, fe wnaeth Define gynnal 10 cyfweiliad trylwyr (trwy gyswllt fideo) gyda swyddogion awdurdod lleol a chwmnïau bysiau yn yr un ardaloedd, yn ogystal â Gwynedd ac Abertawe. Dewiswyd y ddau ychwanegol hyn er mwyn cael barn rhanddeiliaid a oedd wedi dewis peidio â chymryd rhan yng nghynllun peilot TrC.

Mae'r rhaglen ymchwil wedi'i hatal ar hyn o bryd nes bod y gwaith *fflecsi* a lansiwyd yn ddiweddar yng Nghasnewydd⁶ wedi ennill ei blwyf a'r teithwyr wedi cael amser i brofi'r gwasanaeth. Mae cyfweiliadau pellach wedi'u trefnu ar gyfer dechrau 2022 a bydd adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar ôl cwblhau'r rhaglen gyflawn.

Roedd Ffocws ar Drafnidiaeth wedi ystyried trafndiaeth seiliedig ar alw o'r blaen yn 2016, wrth gasglu barn defnyddwyr am fysiau cymunedol a archebwyd ymlaen llaw a thaccis a rennir mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol Suffolk, Hampshire a Swydd Gaerwrangon⁷.

3 Ewch i wefan *fflecsi* (<https://www.fflecsi.cymru/>) am fanylion y gwasanaethau hyn.

4 Gweler: <https://www.stagecoachbus.com/promos-and-offers/north-east/tees-flex#>.

5 Gweler: <http://www.go2now.co.uk/#how-to-book-your-journey>.

6 Gweler: <https://www.fflecsi.cymru/locations/casnewydd/>.

7 Mae'r adroddiad hwnnw ar gael yn: <https://www.transportfocus.org.uk/publication/demand-responsive-transport-users-views-pre-booked-community-buses-shared-taxis/>.

Cysylltu â Ffocws ar Drafnidiaeth

Ar gyfer unrhyw ymholiadau
am y gwaith ymchwil hwn cysylltwch â:

David Beer

Uwch Reolwr Cymru

david.beer@transportfocus.org.uk

www.transportfocus.org.uk

info@transportfocus.org.uk

Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru Cyf.

Llawr 5, Tŷ Trafalgar

5 Plas Fitzalan

Caerdydd

CF24 0ED

Mae Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru

yn rhan o'r Transport Focus Group.

Transport Focus yw enw gweithredu'r

Cyngor Teithwyr